Cafwyd newyddion siomedig o safbwynt ariannu ym mis Hydref a arweiniodd at ansicrwydd ariannol i'r ganolfan. Llwyddwyd i oresgyn hynny'n ffodus erbyn mis Mawrth gan arwain at sicrwydd yn 23/24.

Ym mis Mawrth, ffarweliwyd ag aelod allweddol o staff a oedd wedi bod gyda ni ers 14 mlynedd, ac a fydd yn gadael bwlch mawr! Dymunwn bob llwyddiant iddi yn ei menter newydd, gyffrous.


“

"Rwy'n dioddef o orbryder cymdeithasol felly mae'r teithiau yma wedi 'ngorfodi i i wthio drwy fy ngorbryder a sicrhau 'mod i a'r plant yn cael amser wrth ein bodd."

”



Canlyniadau





Canolfan Deulu 'Tots Tŷ Ni' Garnant

Mae Canolfan Deulu Garnant yn elusen gofrestrdig sy'n cynnig cefnogaeth a gweithgareddau rhad ac am ddim i bawb.

Uchafbwyntiau

- Yn ystod Gwyliau'r Haf cynhaliwyd sesiynau chwarae wythnosol ar gyfer teuluoedd ym Mharc Golwg-Yr-Aman. Cafodd 45 teulu â 78 o blant gyfle i fwynhau amrywiaeth o brofiadau chwarae.
- Darparu teuluoedd yr Apêl Teganau â chyw iâr neu dwrci (eu dewis nhw) ar gyfer cinio Nadolig.
- Cafodd teuluoedd gyfle gydweithio i greu cychod bach, gan ddefnyddio offer megis driliau llaw, llifiau a morthwylion ayb.

Y Sesiynau a Gynhaliwyd

Cafwyd 5 sesiwn Chwarae yn y Parc @ Mugga, ym Mharc Golwg-Yr-Aman yn ystod gwyliau'r haf. Cynigiwyd profiadau chwarae amrywiol gan ddefnyddio darnau rhydd, hambyrddau twff oedd yn cynnwys cyfrwng gwahanol bob wythnos, megis ewyn chwarae, toes chwarae, toes tywod a sleim. Rydym hefyd yn cynnig gweithgareddau natur/awyr agored a chrefftau. Roedd y sesiynau'n rhad ac am ddim ac fe'u cynhaliwyd ar y cyd ag Actif Sir Gâr a chyda chefnogaeth Canolfan Gymunedol Cwmaman. Ymysg ein cohort



wythnosol cyson o sesiynau mae Boliau a Babis (Bumps to Babies), Outreach Toddler and Siblings, ein Grŵp Gardd Gymunedol ar gyfer Plant Bach, Gwyddoniaeth y Gegin a'n grŵp Llyfrbry ASD.

“Ro'n i'n gallu mynd â'r plant allan i'r digwyddiadau oedd yn cael eu cynnal, yn enwedig Fferm Folly, a fyddai wedi bod yn amhosib i fi ar lefel ymarferol ac ariannol heblaw amdanoch chi.”

'Tots Tŷ Ni' Canolfan Deulu Garnant

“

Mae wedi cynnig cefnogaeth hanfodol i fi fy hun a'm merch o safbwynt ymgysylltiad cymdeithasol.

”

Trosolwg o'r flwyddyn

Yn ystod y flwyddyn, rydyn ni wedi cynnig llawer o gefnogaeth i deuluoedd yn ogystal â'n sesiynau arferol. Ers y pandemig, mae rhieni wedi sôn yn fwy agored o lawer am yr heriau iechyd meddwl sy'n eu hwynebu nhw felly rydyn ni wedi ymateb drwy gynnig hyfforddiant Sgiliau Penderfynu i'n staff, sy'n ein helpu ni i gynnig sgiliau ymdopi ag emosiynau i'n rhieni. Rydyn ni'n gwneud llawer o waith ar sail hunanofal, annog rhieni i

drafod mân bethau y gellid eu gwneud i ofalu amdany'n nhw eu hunain, megis oedi am ychydig a chael disied o de a threulio amser yn mwynhau'r ddisied honno.


Rydyn ni'n gwneud llawer o grefftiau awyr a gored a garddio gyda theuluoedd ac mae llawer ohony'n nhw bellach wedi dechrau tyfu planhigion gartref. Yn ystod y gaeaf, rydyn ni'n derbyn nawdd gan y cyngor er

mwyn darparu man cynnes ar gyfer teuluoedd sydd angen hynny.

Mae gwasanaeth Cyngor Am Bopeth wedi rhoi cyfrifiadur i ni er mwyn i rieni allu cael gafael ar gefnogaeth a chynghor yn gyflym. Llwyddodd un rhiant i sicrhau budd-daliadau nad oedd hi'n ymwybodol fod ganddi hawl arny'n nhw.



Canlyniadau





Canolfan Blant Jig-so

Mae Jig-So yn darparu amgylchedd ddiogel, cyfeillgar, ac anfeirniadol i deuluoedd a phlant o bob gallu, yn y Ganolfan ac mewn lleoliadau eraill.

Uchafbwyntiau

- Mae llawer o rieni o wahanol ardaloedd yn mynychu. Cyfuniad o rieni ifanc a hŷn yn dod at ei gilydd, yn cyfnewid syniadau – yn creu grwpiau ffrindiau newydd.
- Creu amgylchedd o weithgareddau yn Jig-so o weithgareddau na fyddai rhieni'n eu gwneud gartref – chwarae anniben, coginio ayb.
- Cynnig syniadau i rieni ynglŷn ag eitemau thematig/chwarae nad oes angen gwario arian arnyn nhw. Creu bwrdd synhwyraidd, chwarae â hetiau a sbectolau o flaen y drych a defnyddio goleuadau mân.

Y Sesiynau a Gynhaliwyd

Ystafell synhwyraidd/pebyll synhwyraidd ym mhob sesiwn, yn ogystal â nifer o adnoddau synhwyraidd. Ymdrin â sŵn, y gweledol, cyffwrdd a theimlo, sgiliau echddygol bras a manwl. Chwarae anniben – tywod, dŵr, toes chwarae, cerddoriaeth a symud, chwarae â drych, chwarae chwilfrydig.

Mae llyfrgell fenthyg o adnoddau ar gael i bob rhiant i fynd ag eitemau gartref i'w defnyddio.

Mae rhieni wedi cael y rhyddid i ymuno yn ôl eu dymuniad a'u gofyn nhw eu hunain



drwy ddefnyddio'r ardal fabi dawel ac ymlaciol yn ogystal â'r ardal chwarae tu allan.

"Rhoddodd un fam ei babi yn yr hambwrdd anniben:- Rhoddodd hyn yr hyder i fi wneud yr un peth gyda 'mhentyn fy hun"

Canolfan Blant Jig-so

“

“Mae defnyddio offer cyffredin o’r tŷ ar gyfer creu cerddoriaeth yn syniad gwych. Gwnaeth fy mab fwynhau cymaint gan chwarae am gyfnod hirach nag arfer.”

”

Trosolwg o’r flwyddyn

Yn ystod y flwyddyn, cafwyd llif cyson o deuluoedd. Gwelwyd cynnydd yn y nifer o blant dan 1 yn mynychu. Mae rhieni wedi mwynhau’r gwahanol ardaloedd synhwyraidd rydyn ni wedi’u creu ar gyfer bob sesiwn. Mae bob sesiwn wedi bod yn wahanol.

Mae rhieni wedi cymryd llawer o syniadau o’r sesiynau a pharhau i’w chwarae gartref – prynu pyllau tywod, arllwys dŵr i sosbenni ac ambell gwpan a phowlen – a hyd yn oed creu corneli synhwyraidd yn eu cartrefi eu hunain.

Roedd yr ystafell synhwyraidd yn ofod diogel a hynod dawel ar gyfer rhieni a phlant o bob oed a gallu i ymlacio.


Byddai rhai plant yn dod i’r sesiwn ac yn mynd yn syth i mewn i’r ystafell. Dim ond rhyw 5 munud fyddai angen ar rai o’r plant i mewn yno cyn dod allan yn hapus i chwarae gydag adnoddau eraill.

Aeth rhieni fu’n mynychu’r sesiynau ymlaen i fynychu sesiynau Jig-so eraill a gwneud grwpiau o ffrindiau newydd.

Mae’r adnoddau wedi tanio sgiliau iaith rhai o’r plant – gan ddysgu lliwiau, achos ac effaith.



Canlyniadau





Canolfan Deulu Llambed

Rydyn ni'n darparu lleoliad cynnes a chyfeillgar ar gyfer teuluoedd a phlant ifanc lle gallan nhw fwynhau gweithgareddau a datblygu perthnasoedd.

Uchafbwyntiau

- Mae teuluoedd wedi mwynhau amrywiol wibdeithiau yn ystod yr haf gan ymweld ag Aberaeron, Fferm Fantasy a diwrnod hwyl Eglwys Gadeiriol Tyddewi.
- Fe wnaeth ein teuluoedd fwynhau gwisgo gwisgoedd ffansi brenhinoedd a breninesau yn y parti i ddathlu coronîr Brenin.
- Mae gennym berthynas agos o hyd â chartrefi gwarchodol Llys Pedr ac roedd hi'n hyfryd eu gweld nhw'n mynychu ein parti dathlu Plant Dewi.

Y Sesiynau a Gynhaliwyd

Boliau a Babis – sesiynau lle mae mamau beichiog a rhieni â babanod ifanc yn sgwrsio ac yn ceisio cyngor a chefnogaeth.

Aros a Chwarae – sesiwn chwarae rad ac am

Celf a Chrefft – themâu amrywiol

Tylino babi

Chwarae Synhwyraidd ac Anniben

Zumbini (Zumba ar gyfer plant)

Iaith a Chwarae – Little Stars

Sesiynau ymwybyddiaeth ofalgar

Nofio



Croeso Man Cynnes, man cynnes ar gyfer teuluoedd i ddod at ei gilydd a chael pryd o fwyd poeth gyda'i gilydd

O gwmpas y lle – Mynd am dro â choetsis.

“Diolch o galon i Ganolfan Deulu Llambed am drefnu'r trip hyfryd i Fferm Fantasy i ni.”

Canolfan Deulu Llambed

“

Mae'r ganolfan wedi helpu fy merch i weld diwylliant newydd a dysgu pethau newydd.

”


Trosolwg o'r flwyddyn

Wedi oedi yn dilyn y pandemig, gwelwyd agoriad swyddogol y Ganolfan Deulu yn ei lleoliad newydd ym mis Medi. Daeth y gymuned at ei gilydd i ddathlu mewn parti, lle cafwyd cyfle i fwyta llu o gacennau a mwynhau'n fawr iawn. Cafodd y plant gyfle i fwynhau nifer o wibdeithiau; Fferm Fantasy, Aberaeron, Moody Cow, yr orsaf dân leol i enwi ond ychydig. Cafodd y staff a'r teuluoedd gyfle i fwynhau dathlu 20 mlwyddiant Plant Dewi yn ystod diwrnod hwyl Plant Dewi yn Eglwys Gadeiriol Tyddewi. Mae ein sesiynau mynd am dro wedi bod yn hynod boblogaidd, a datblygwyd cysylltiadau gyda'r gymuned ehangach yn cynnwys ymweliadau â'r llety cysgodol lleol, lle datblygwyd perthnasoedd cadarn rhwng y cenedlaethau. Cynhaliwyd digwyddiadau i ddathlu digwyddiadau pwysig yn y calendr megis y Nadolig a'r Pasg.



Yn ystod misoedd y gaeaf, cynhaliwyd clwb cinio llwyddiannus bob dydd Mercher, lle darparwyd pryd o fwyd maethlon. Roedd teuluoedd yn gwerthfawrogi'r lleoliad cynnes ac yn mwynhau'r ymwneud ag eraill. Edrychwn ymlaen at fwynhau profiadau newydd amrywiol yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Canlyniadau



Cynigiwn leoliad cynnes a chroesawgar lle y gall teuluoedd ddatblygu rhwydweithiau cefnogol, ennill hyder, a dysgu sgiliau newydd.

Uchafbwyntiau

- Ysbrydoliaeth gan y gyfres o sesiynau gydag Arts 4 Wellbeing yn datblygu sesiynau chwarae yn yr awyr agored a chysylltu â'r amgylchedd naturiol drwy gyfrwng ein synhwyrâu.
- Gyda diolch i Haf o Hwyl, llwyddwyd i ymweld â pharc Fferm Ynys Aberteifi gyda chriw o 52 o rieni a phlant.
- Yn dilyn cwrs rhianta plant bach Gro Brain ym mis Ionawr, cynhaliwyd cwrs gyda'r nos ar gyfer Tadau'r grŵp.

Y Sesiynau a Gynhaliwyd

Cynhaliwyd sesiwn wythnosol ar gyfer rhieni a babanod dan 1 oed. Yn ogystal â Dechrau Da, cynigiwyd cwrs chwech wythnos "Little Stars", wedi'i ddilyn gan gyfres o sesiynau "Chwarae Anniben" ar gyfer chwarae ac archwilio synhwyradd.

Ymysg y sesiynau iaith a chyfathrebu cynhaliwyd cyrsiau "Clebran Baban", a "Iaith a Chwarae" gyda Dechrau Da, a sesiynau stori a chân wythnosol.

Cynigiwyd sesiynau Zumbini wythnosol ar gyfer chwarae corfforol a sesiynau chwarae ac archwilio awyr agored



wythnosol.

Yn ystod y flwyddyn hefyd, cynhaliwd sesiwn Cymorth Cyntaf, parti Nadolig, a chafwyd ymweliadau gan Pace, Workways a WWDAS.

“Llawer o gyngor am ddiddyfnu a sesiwn flasu, cyngor am drefn, llawer o sylwadau cadarnhaol ac anogaeth.”

”

Canolfan Deulu Llandysul

“

Fe wnaethon ni wir werthfawrogi'r wibdaith i'r Ardd Fotaneg. Roedd yn fendigedig a fydden ni ddim wedi gallu fforddio mynd.

”

Trosolwg o'r flwyddyn

Bu'n flwyddyn brysur Llandysul. Rydyn ni wedi parhau â sesiynau cyson a datblygu rhai newydd gyda theuluoedd.

Drwy gydol y gwanwyn a'r haf, mae teuluoedd wedi mwynhau sesiynau awyr agored gydag Arts 4 Wellbeing a Tir Coed yn y parc a'r ymddiriedolaeth coetir yng Nghoed y Foel. Yn dilyn y sesiynau yma, rydym wedi datblygu ein rhaglen ein hunain o sesiynau, "Chwarae ac Archwilio" er mwyn cynnig syniadau a datblygu hyder i archwilio'r amgylchedd naturiol gyda phlant.

Yn ystod yr haf, ymunodd teuluoedd â ni yn yr ardd gymunedol Yr Ardd, gan fwynhau casglu llysiau, creu gwestai ar gyfer chwilod a




gweithgareddau eraill. Byddwn yn dychwelyd yn ystod yr haf flwyddyn nesaf i ddatblygu ein llain o dir ymhellach ac arbrofi gyda mwy o weithgareddau.

Llwyddom i sicrhau nawdd Haf o Hwyl a'n galluogodd i ymweld â Pharc Fferm Ynys Aberteifi a chynnal mwy o sesiynau gydag Arts 4 Wellbeing.

Dychwelodd ein sesiynau Zumbini poblogaidd yn ystod yr hydref. Ymwelodd y grŵp â'r cartref gofal lleol ddwywaith yn ystod y flwyddyn i roi'r cyfle i'r preswylwyr ymuno yn y Zumbini. Mae teuluoedd wedi mynychu sesiynau stori a chân hefyd gyda Cymraeg i Blant.

Cynhaliwyd tri chwrs rhianta eleni, yn cynnwys ein cwrs ar gyfer Tadau.

Canlyniadau





Canolfan Deulu Llanybydder

Amgylchedd ymlaciol, gyfeillgar sy'n cynnig cefnogaeth i deuluoedd â phlant rhwng 0-11 oed yn Llanybydder a'r ardaloedd cyfagos.

Uchafbwyntiau

- Dathlodd y Ganolfan Deulu ei 21ain blwyddyn weithredol eleni, gan gefnogi teuluoedd drwy drefnu parti, a roddodd gyfle i ni wahodd y gymuned i mewn i'r Ganolfan.
- Ymgysylltu â'r gymuned - cymryd rhan mewn digwyddiadau adeg y Nadolig, sesiynau rhwng y cenedlaethau, sesiynau yn Ysgol Gynradd Llanybydder ac ennill y wobr gyntaf yng Ngharnifal Llanybydder!
- Gallu helpu gyda'r argyfwng costau byw, drwy ddarparu dillad plant, bwyd, atgyfeiriadau banciau bwyd a nwyddau hylendid rhad ac am ddim i deuluoedd.

Y Sesiynau a Gynhaliwyd

Cylch Ti a Fi - Chwarae Tu Allan

Grŵp Boliau a Babis - Aros a Chwarae

Tylino Babi Peter Walker

Iaith a Chwarae

Coffi, Cacen a Chlonc

Paratoi ar gyfer yr Ysgol - Crefftau

Coginio - Corfforol - Actif-i-ti

Cymraeg i Blant

Menter Iaith

Rubba Bubba gyda Rach

Arts 4 Wellbeing

Zumbini



FSgiliau Cymorth Cyntaf

Sesiynau rhwng y cenedlaethau

Dyddiau Thema: Lan y Môr a

Thywysogesau a Môr-ladron

Gwibdeithiau: Gerddi Norwood, Diwrnod

Chwarae RAY, Krazy Horses.

“ Mae Canolfan Deulu Llanybydder wedi fy helpu i i deimlo'n llai unig a rhoi pwrpas i fi; yn wir, mae wedi achub fy mywyd. ”

Canolfan Deulu Llanybydder

“

Mae'r ganolfan fel ail gartref i fi. Man diogel lle gall fy mab a minnau fynd i ymlacio. Dysgu a chwarae. Mae'r staff yn hynod garedig wrth groesawu fy mab sydd ag ADHD.

”

Trosolwg o'r flwyddyn

Ein prif nod yw cefnogi teuluoedd yn wyneb nifer o anawsterau sy'n gallu eu hwynebu, hybu a chyfoethogi'r berthynas rhwng yr oedolyn a'r plentyn drwy gydweithio mewn gwahanol sesiynau, a sicrhau fod plant yn cael cymaint o brofiadau newydd â phosibl yn ystod eu blynyddoedd cynnar.

Wrth i ni weld golau ar ddiwedd y twnnel wedi cyfnod anodd, digynsail pandemig byd eang, roedd ein gwasanaeth yn bwysicach nag erioed i'n teuluoedd.


Nododd teuluoedd eu bod yn teimlo'n ynysig, ac fe aethon ni'r filltir ychwanegol i groesawu teuluoedd, yn gyfarwydd ac yn newydd, yn ôl drwy ein drysau, i gefnogi ac annog cyfeillgarwch a fyddai yn y pen draw yn ymestyn y tu hwnt i'n drysau ni.

Roedd angen datblygu sgiliau cymdeithasol plant - yn ddigon naturiol wedi cyfnodau clo olynol, a rhoddodd ein sesiynau Iaith a Chwarae, Cylch Ti a Fi, ac Aros a Chwarae ryddid i blant, yn ogystal ag arweiniad i ddatblygu'r rhain.

Gan ddefnyddio canllawiau gan yr ysgol gynradd leol, llwyddwyd i helpu plant i bontio i'r ysgol drwy gyfrwng ein sesiynau Parod i fynd i'r Ysgol.



Canlyniadau





Morfa Family Centre

Morfa Family Centre provides a warm friendly space for families with preschool children.

Uchafbwyntiau

- Fferm Brynteg. Roedd y wibdaith yn hynod rhyngweithiol, ac roedd teuluoedd wrth eu bod yno. Y wibdaith orau erioed i deuluoedd. Datblygwyd cysylltiad hefyd â fferm leol.
- Mae'r Clwb Cinio wedi aildechrau gan ddatblygu i fod yn dipyn o glwb diddyfnu yn ogystal â helpu teuluoedd gyda'r argyfwng costau byw.
- Gweithio gyda Messy Play i gyflwyno sesiynau chwarae anniben rhyngweithiol. Roedd plant wrth eu bodd yn cymryd rhan.

Y Sesiynau a Gynhaliwyd

Grŵp Babi

Grŵp Plant Bach

Chwarae Corfforol

Cymorth Cyntaf gyda Rhieni

Aros a Chwarae

Clwb Cinio

Adrodd Stori

Amser Cân

Messy Play

Chwarae Anniben

Gwibdeithiau i Fferm Folly, Parc Bywyd

Gwylt Manor, Dinbych y Pysgod, Fferm

Brynteg, San Ffagan, Parc Dinosoriaid,

Diwrnod yn Eglwys Gadeiriol Tyddewi a'r

Ganolfan Chwarae Meddal.



“Diwrnod gorau fy mywyd” dyfyniad gan un o'r plant a aeth ar y wibdaith i Fferm Brynteg.

Canolfan Deulu Morfa

“

Rwy'n gwneud yn siŵr, wedi cyfnod mamolaeth, 'mod i'n rhydd o'r gwaith ar ddydd Iau a dydd Gwener er mwyn i fi allu mynychu grwpiau bob wythnos.

”

Trosolwg o'r flwyddyn


Codwyd yr holl gyfyngiadau ar ôl y pandemig. Arweiniodd hyn at lawer o heriau i'r ganolfan. Mae teuluoedd yn dal yn bryderus, yn enwedig y rhai sy'n disgwyl neu sydd â babanod ifanc. Mae'r ganolfan wedi ymateb ac wedi ymdopi'n dda yn wyneb y fath heriau, gan sicrhau fod plant a rhieni'n rhyngweithio ac yn mwynhau amser yn cymdeithasu gyda'i gilydd unwaith eto.

Mae trefnu gwibdeithiau wedi helpu plant i archwilio'r byd a chymdeithasu â chyfoedion unwaith eto. Mae rhieni wedi magu hyder ac wedi ymateb i'r byd o'u cwmpas. Datblygwyd cyfeillgarwch a grwpiau cefnogi cyfoedion - dau beth y gwelodd y rheini tro cyntaf eu heisiau'n fawr yn ystod y pandemig.



Mae'r plant a anwyd yn ystod y pandemig ar eu colled o safbwynt ysgogiad grwpiau cymdeithasol felly mae hi wedi bod yn braf iawn gweld y plant hynny'n ffynnu ac yn datblygu yn ystod y sesiynau a'r gwibdeithiau a drefnwyd.

Canlyniadau





Canolfan Deulu Pencader

Canolfan Deulu wledig yw hon sy'n cefnogi teuluoedd newydd, hen, ac estynedig gyda phlant rhwng 0-11 mlwydd oed o fewn ein cymuned.

Uchafbwyntiau

- Gwibdeithiau i Fferm Folly, Parc Manor, yr Ardd Fotaneg, Eglwys Gadeiriol Tyddewi, taith Nadolig i Crosshands a pharc Llandysul.
- Dathliadau; helpa wyau Pasg a pharti, Jiwbilí 70 mlynedd y Frenhines, carnifal y pentref, parti Calan Gaeaf, parti Nadolig, cinio Nadolig.
- Creu eliffant 4ft o uchder o'r enw Elfed, gan ddefnyddio papier mâché, gyda'r teuluoedd, a'i gyflwyno i Skanda Vale lle mae bellach yn byw yn y brif deml.

Y Sesiynau a Gynhaliwyd

Iaith a Chwarae

Adrodd stori

Prosiectau celf drwy gydol gwyliau'r Ysgol

Gwehyddu helyg

Gweithio gyda chlai

Peintio gwydr

Llawer o chwarae anniben

Chwarae tu allan

Coginio gyda phlant ac oedolion

Clybiau brecwast a chinio

Diogelwch yn y cartref

Cymorth cyntaf sylfaenol ar gyfer

rhieni/gofalwyr



Dosbarthu 29 bag o deganau a 15 hamper bwyd adeg y Nadolig.

“ Rwy'n teimlo'n hamddenol iawn wedi dod yma, beth bynnag y problemau sy'n fy wynebu mae rhywun yma bob amser i wrando a helpu. ”

Canolfan Deulu Pencader

“

Y peth gorau am ddod yma yw'r staff cyfeillgar a'r rhyddid i 'mhlant ddewis beth maen nhw'n dymuno gwneud.


”

Trosolwg o'r flwyddyn

Bu'n her ar adegau, i deimlo'n ddigon hyderus i fentro allan, er bod rhai'n sôn eu bod yn teimlo'n ynysig, maen nhw hefyd yn sôn am iselder a'r diffyg awch i fynd i unman, ac mae rhieni'n ei chael hi'n anodd iawn i gymdeithasu. Ond o edrych i'r dyfodol, ein gobaith yw cynyddu nifer y teuluoedd newydd yn ogystal â chefnogi ein teuluoedd tymor hir, drwy gyflwyno cyrsiau/gweithgareddau newydd ar gyfer oedolion a phlant, yn enwedig yn ystod gwyliau'r haf, sy'n gyfnod prysur iawn. Fe aethon ni ar sawl gwibdaith lwyddiannus. Cynhaliwyd sawl prosiect celf a chreffft a oedd hefyd yn cynnwys cwblhau Elfed yr Eliffant, a gafodd y wobwr gyntaf mewn sioe leol, a sydd bellach wedi'i gyflwyno i Skanda Vale. Dyma ein rhodd ni fel gwerthfawrogiad o'r holl gefnogaeth y maen nhw wedi'i roi i ni drwy eu hamperi bwyd dros y blynyddoedd. Ym mis Ionawr, ymddeolodd Trevor Winn wedi 17 mlynedd fel cydlynnydd. Dymunwn y gorau iddo yn ei ymeddoliad.



Canlyniadau





Canolfan Deulu RAY Ceredigion

Mae'r ganolfan yn ddiogel, yn groesawgar, sy'n cynnig gofod ar gyfer teuluoedd â phlant ifanc i ddod at ei gilydd mewn amgylchedd hamddenol. Ymwneud ag eraill ac annog cerrig milltir datblygiadol plant.

Uchafbwyntiau

- Nyth y Fron - Grŵp Bwydo o'r Fron - sesiwn wedi'i chreu gan 3 mam sy'n gwirfoddoli. Rhoddir gwybodaeth broffesiynol.
- Rhaglen rianta Family Links - llwyddodd 2 riant i gwblhau'r rhaglen 10 wythnos sy'n canolbwyntio ar gefnogi rhieni drwy nifer helaeth o heriau rianta.
- Canolfan Deulu Outreach - yn ystod haf 2022, ymwelwyd â 2 gymuned leol er mwyn cynnig oriau o hwyl. Mynychodd dros 300, gan amrywio o fabanod i neiniau a theidiau.

Y Sesiynau a Gynhaliwyd

- Aros a Chwarae
- Synhwyrâu Babi
- Tyllino Babi
- Sesiwn symud Move and Groove
- Mynd Am Dro
- Sêr Bach Little Stars
- Clebran Baban
- Haf o Hwyl
- Sesiynau Diddyfnu
- Sesiwn Just for Me gyda Simone
- Nyth y Fron - grŵp bwydo o'r fron
- Rhaglen rianta - Family Links
- Clwb Home From Home



“ Rwy wedi mwynhau mynd â'r mab i sesiynau Synhwyrâu Babi. Maen nhw wedi bod yn fuddiol i'r ddau ohonom ni. Rwy'n mwynhau agwedd gymdeithasol y sesiynau ”

Canolfan Deulu RAY Ceredigion

“

Mae #### yn caru ei sesiynau dydd Llyn yn RAY. Mae yna awyrgylch groesawgar, ac mae'r staff yn anhygoel.

”

Trosolwg o'r flwyddyn

Ar sail llwyddiant y flwyddyn gynt, mae mwy a mwy o deuluoedd wedi bod yn mynychu. Mae rhieni wir yn gwerthfawrogi gallu mynd allan o'r tŷ a dod â'u plant i rywle diogel.

Yn ystod misoedd y gaeaf cynhaliwyd clwb "Home from Home" ar gyfer ein rhieni gan gynnig lle iddyn nhw yn y ganolfan drwy gydol y dydd, pryd o fwyd poeth ac amser i gymdeithasu gydag eraill.

Mewn partneriaeth â Pathfinder, rydym wedi cyflwyno "Sêr Bach" (Little Stars) a "Diddyfnu Babi".




Cyflwynwyd "Clebran Baban" - rhaglen 3-4 wythnos i gefnogi llefaredd ac iaith. Cynigiwyd sesiynau cwnsela trawma ar enedigaeth, gan gefnogi 6 rhiant.

Hyfforddwyd 4 aelod ychwanegol o staff i gyflwyno rhaglen Rianta Family Links.

Mae'r ardal allanol wedi'i datblygu i fod yn Ardd Fywyd Gwylt sy'n plesio'r rhai bach yn fawr ac yn cynnwys cegin fwd ar gyfer chwarae.

Mae'r Ganolfan Deulu'n dal i gefnogi teuluoedd o ardal ddaearyddol eang yng nghanol y sir.

Canlyniadau





Canolfan Deulu St Paul's

Rydyn ni'n cynnig amgylchedd gynnes a chroesawgar, sy'n rhad ac am ddim, ar gyfer teuluoedd â phlant hyd at 11 oed.

Uchafbwyntiau

- Cafodd teuluoedd gyfle i ymweld â Fferm Folly, Porthcawl, San Ffagan, Parc Margam, Tyddewi a'r Ardd Fotaneg yn ogystal â mynd ar ymweliadau â pharciau a thraethau lleol.
- Yn ystod y flwyddyn, cofrestrodd a mynychodd 127 o deuluoedd newydd sesiynau
- Cydweithio â sefydliadau mewn partneriaeth i gyflwyno digwyddiadau megis Diwrnod Mabolgampau'r Haf, Cysylltu â Natur, Nadolig o gwmpas y Byd, Diwrnod Chwarae Cenedlaethol a'r Gwasanaeth Nadolig.

Y Sesiynau a Gynhaliwyd

- Grwpiau babi (yn enwedig ar gyfer babanod dan 1 oed) a sesiynau plant bach.
- Chwarae a Dysgu - ar gyfer plant o oed cynradd a'u rhieni/gofalwyr. Mae'r sesiynau wedi galluogi plant i dderbyn cefnogaeth gyda gwaith cartref wrth fwynhau gwneud ffrindiau newydd a chymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau.
- Sesiynau Hwyl i'r Teulu yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae'r sesiynau yma wedi cynnwys sawl gwibdaith rad ac am ddim neu gost isel.



- Cyrsiau Iaith a Chwarae
- Tyllino Babi
- Coginio ar gyllideb
- Cyrsiau oedolion a chyfleusterau crèche.

“Rydyn ni'n caru dod yma i gymdeithasu bob wythnos, yn caru celf a chrefft a chwarae anniben.”

Canolfan Deulu St Paul's

“

Mae'r staff yn eithriadol, yn falch i fod yn rhan o deulu St Paul's.

”

Trosolwg o'r flwyddyn


Drwy gydol y flwyddyn mae'r staff wedi parhau i gynnal sesiynau yn ystod y tymor ysgol a'r gwyliau. Mae'r sesiynau adeg y tymor wedi canolbwyntio ar blant dan oed ysgol, gan gefnogi drwy gyfrwng pynciau megis Tyllino Babi, diddyfnu, chwarae synhwyraidd ac anniben. Mae grwpiau'r plant bach wedi cefnogi'r gwaith pontio i'r cylch meithrin/ysgol drwy ddilyn trefn ddyddiol megis amser cân a stori, bwyta byrbrydau iach a hybu gweithgareddau corfforol a chyfoethogi llefaredd ac iaith. Roedd y sesiynau iaith a Chwarae'n boblogaidd iawn, gyda 20 teulu'n mynychu'r sesiynau thema Nadoligaidd ac yn parhau i fynychu drwy gydol y flwyddyn.



Cafodd plant oed ysgol a rhieni/gofalwyr gyfle i fynychu sesiynau Chwarae a Dysgu a Hwyl i'r Teulu, oedd yn cynnwys gwibdeithiau/ymweliadau/sesiynau awyr agored a gweithgareddau yn y ganolfan. Roedd nawdd "Haf o Hwyl" Llywodraeth Cymru'n ychwanegiad gwych i'r sesiynau yma.

Mae partneriaethau gwaith parhaus wedi bod yn gadarnhaol iawn ac mae'r ganolfan wedi gweithio gyda'r partneriaid canlynol; Rhwydwaith y Ganolfan Deulu, Rhwydwaith Amlhiliol Llanelli, Dechrau Da, Ieuenctid Bro Lliedi, Eglwys Gymunedol Ty Gwyn, Arts 4 Wellbeing, a Thim Trawsfurfio Tyisha.

Canlyniadau





Meithrinfa St Paul's

SSeilir Meithrinfa St Paul's ar raglen 'Dechrau Da' sy'n cynnig gofal ar gyfer plant lleol rhwng 2 a 3 oed.

Uchafbwyntiau

- Cawsom adroddiad arbennig gan 'Arolygiaeth Gofal Cymru'.
- Cael ein gwahodd i beilota cynllun newydd Dechrau Da 'Datblygiad Llefaredd ac Iaith'.
- Adborth da gan rieni'n dangos eu gwerthfawrogiad o'r Feithrinfa.

Y Sesiynau a Gynhaliwyd

Roedd croeso i rieni siarad ag aelodau'r staff cyn a/neu wedi bob sesiwn. Mae hyn yn rhoi cyfle i rieni sôn am unrhyw heriau neu ofidiau sy'n ymwneud â datblygiad eu plentyn neu dderbyn cysur gan aelod o staff.

Dechreuwyd dilyn canllawiau 'Cwricwlwm Newydd Cymru ar gyfer Meithrinfeydd'.

Ymwelodd y plant â'r ysgol gynradd leol i gael picnic, a oedd yn eu galluogi i bontio'n well draw i'r ysgol a'u helpu i gael profiadau cadarnhaol yn eu hamgylchedd newydd.



Cyfarfu Rheolwr y Feithrinfa â'r Pennaeth i rannu gwybodaeth am y plant oedd ar fin dechrau er mwyn cefnogi'r symud i'r ysgol.

“Diolch am bopeth. Roedd y croeso a'r staff mor arbennig.”

Meithrinfa St Paul's

“

Rwy mor hapus â'r gofal a dderbyniodd fy mhlentyn, yn hapus â'r staff â'r amrywiaeth o weithgaeddau sy'n cael eu harwain gan y plentyn.

”

Trosolwg o'r flwyddyn

Cyn dechrau yn y feithrinfa, cafodd teuluoedd eu hannog i gymryd rhan yn 'Grŵp Plant Bach' y Ganolfan Deulu. Helpodd hyn y plant i ymgysgu â'r lleoliad.

Gwnaeth y staff eu gorau i sicrhau amgylchedd hapus, gofalgar, ysgogol a chyfeillgar. Gweithiodd y staff ochr yn ochr â'r plant i gefnogi chwarae, dysgu a datblygu ar eu pwys a'u pastwn eu hunain.

Mae'r plant wedi bod ar deithiau cerdded lleol er mwyn profi'r gymuned ehangach. Mae hyn wedi caniatáu iddyn nhw gael profiad o'r amgylchedd awyr agored sydd hefyd yn ymwneud â sawl maes dysgu. Cefnogodd y staff y plant yn ddyddiol wrth ymwneud â gweithgareddau ac aethpwyd â phrofiadau'r dosbarth allan i'r awyr agored pan oedd y tywydd yn caniatáu.

Rydyn ni wedi gweithio'n dda mewn partneriaeth â sefydliadau megis Dechrau Da, Blynyddoedd Cynnar Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Cynllun Gwên, Cynllun Cyn-Ysgol Iach, a'r ysgol gynradd leol.



Canlyniadau

- Mae staff wedi sylwi ar blant ac wedi dilyn Proffil y Cyfnod Sylfaen (PCS).
- Nid yw llawer o'r plant mwy newydd wedi cael cyfle i gymryd rhan mewn grwpiau babi a phlant bach. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, roedd 25% islaw'r PCS o safbwynt hyfforddiant tŷ bach a llefaedd ac iaith. Serch hynny, llwyddodd 75% i gynyddu eu datblygiad personol a chymdeithasol.
- Mae 100% wedi gwella eu lles corfforol ac emosiynol, rheolaeth ymddygiadol ac ymateb i eraill.



Canolfan Deulu Tregaron

Mae Canolfan Deulu Tregaron yn cynnig gwasanaeth safonol anfeirniadol, mynediad agored er mwyn datblygu sgiliau a hybu capasiti teuluoedd.

Uchafbwyntiau

- Cefnogi llawer o famau tro cyntaf eleni gan gynnig rhaglenni rhianta, cefnogaeth a lleoliad cynnes a chyfeillgar iddyn nhw allu cymdeithasu a gwneud ffrindiau newydd.
- Gwneud y sesiynau'n fwy apelgar i Dadau gydag 16 o dadau'n mynychu ein sesiynau eleni, sy'n anhygoel.
- Agor sesiynau manau cynnes i'r cyhoedd sydd wedi bod yn rhedeg ers mis Tachwedd gan gynnig prydau bwyd poeth yn rhad ac am ddim, gyda thros 20 teulu'n mynychu'n gyson.

Y Sesiynau a Gynhaliwyd

Gwibdeithiau i Fferm Denmark, Fferm Fantasy, Eglwys Gadeiriol Tyddewi, Moody Calf, Fferm Adar CIC.

Digwyddiadau dathlu; Gwasanaeth Nadolig, Parti Nadolig, Barbiciw Haf, parti dathlu 20 mlwyddiant Plant Dewi.

Cynllun becws ar gyfer 34 teulu.

Bagiau llyfr stori a phropiau wedi'u hanfon allan i 21 teulu.

Iaith a Chwarae, Blynyddoedd Anhygoel, Aros a Chwarae, Mannau Cynnes, Zumbini, Clebran Baban, Sesiynau Crefft, Celf Ymwybyddiaeth Ofalgar, Ffitrwydd Dewch



â'ch Babi Mindfulness Art, Chwarae Parc, Tyllino Babi, Prosiectau Celf Gymunedol, Diwrnod Ymgynghori, Celf er Lles, Taith Gerdded Natur, Gweithdy Theatrig.

“ Mae'r sesiynau'n gynhwysol ar gyfer pob oed. Rydyn ni'n ffodus iawn i gael mynediad i'r fath wasanaeth ardderchog. ”

Canolfan Deulu Tregaron

“

'Rydyn ni'n ddiolchgar iawn i gael y Ganolfan Deulu a Karli! Mae bob sesiwn sy'n cael eu cynnig yn hanfodol er mwyn i deuluoedd allu mynd allan a chymdeithasu.

”

Trosolwg o'r flwyddyn


Cawsom gyfle i groesawu aelod cefnogi'r teulu newydd sydd wedi bod yn werthfawr iawn i'r tim. Rydym ni wedi symud i adeiladau newydd, gan sicrhau gofod ar gyfer storio, a neuadd fawr sy'n cynnig lle i'r nifer gynyddol o deuluoedd sy'n mynychu. Mae hwn wedi bod yn lleoliad gwych ar gyfer ein gwaith. Mae'n lleol, mae digon o le parcio a Neuadd fawr i gynnal ein holl sesiynau dan do. Cynhaliwyd asesiadau risg a

chafodd camau diogelu eu gweithredu er mwyn lleihau'r risg a chynnig man diogel i rieni. Cynhaliwyd sesiynau awyr agored er mwyn cynnig profiadau gwahanol i'r teuluoedd oedd yn mynychu, e.e. sesiynau ysgol y goedwig, chwarae yn y parc, a theithiau cerdded awyr agored. Trefnwyd tripiâu bws i helpu teuluoedd sydd heb fynediad i drafnidiaeth ac felly'n methu â

mynychu'r manau hyn yn sgil gwasanaeth trafndiaeth cyfyngedig mewn ardal mor wledig. Cyflwynwyd sesiynau manau cynnes ar gyfer teuluoedd ac i'r gymuned ehangach er mwyn cynnig pryd o fwyd poeth a man cynnes i'w helpu yn ystod yr argyfwng costau byw. Dosbarthwyd Pecynnau Becws a bagiau llyfrau i deuluoedd er mwyn cefnogi'r rhai sy'n methu dod i'r sesiynau yn y neuadd.



Canlyniadau





Canolfan Deulu Y Tymbl

Yn cefnogi teuluoedd â phlant rhwng 0-11 oed yng Nghwm Gwendraeth a'r cyffuniau ers 2002

Uchafbwyntiau

- Gallu mynd â theuluoedd lleol ar wibdeithiau am y tro cyntaf ers i'r cyfnod clo ddod i ben
- Cynnig sesiynau galw i mewn i'n teuluoedd a chroesawu nifer fwy o deuluoedd i mewn i'n canolfan
- Sicrhau lleoliad newydd er mwyn gallu parhau i gynnig gwasanaeth o fewn y gymuned

Y Sesiynau a Gynhaliwyd

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Canolfan Deulu Y Tymbl wedi cynnal amserlen gyson ar gyfer sesiynau Babi a Fi, Iaith a Chwarae a Tymino Babi. Yn ogystal â'r rhain, rydyn ni wedi hwyluso sesiynau synhwyraidd ar gyfer babanod rhwng 0-12 mis oed. Bellach, mae'r sesiynau yma'n cael eu cynnal yn wythnosol ac yn cynnig cyfle i deuluoedd gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau synhwyraidd iawn o fewn y ganolfan deulu. Rydyn ni wedi datblygu perthynas agos â'r cyngor cymuned lleol, ac rydyn ni'n trefnu a chynnal rhaglen o



sesiynau chwarae yma yn ystod gwyliau'r ysgol ar gyfer plant hyd at 11 oed o'r gymuned leol. Mae'r sesiynau yma'n bwysig i deuluoedd sy'n methu fforddio cynlluniau chwarae eraill.

“ Cyn i fi ddod i wybod am y Ganolfan Deulu, prin yr oeddwn i'n gadael y tŷ. Ond nawr mae gen i ffrindiau newydd ac rwy'n teimlo'n debycach i fi fy hun eto. ”

Canolfan Deulu Y Tymbl

“

Mae gen i dripledi ac mae'n gas gen i fynd i'r mannau yma ar fy mhen fy hun. Allwn i ddim ymdopi heb yr help rwy'n ei dderbyn gan y staff.

”


Trosolwg o'r flwyddyn

Mae hi wedi bod yn flwyddyn anodd i'r Ganolfan Deulu yn dilyn llifogydd yn yr adeilad, a heriau cyllido parhaus. Serch hynny, gyda chefnogaeth y gymuned leol a Plant Dewi, rydyn ni wedi llwyddo i sicrhau adeilad newydd a chyllid i alluogi'r Canolfan Deulu i barhau i gynnig gwasanaeth i deuluoedd lleol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydyn ni wedi parhau i gynnig amrywiaeth o gyfleoedd chwarae ac wedi datblygu cysylltiadau agos â grwpiau cymunedol ac yn gweithio gyda nhw i ddarparu amrywiaeth o brofiadau'n rhad ac am ddim i deuluoedd. Rydyn ni'n gweithio ar y cyd ag archfarchnad gymdeithasol leol ac wedi gallu cefnogi nifer o deuluoedd lleol i gael gafael ar fwyd ac eitemau rhad. Mae hyn wedi bod yn hynod bwysig yn ystod y 6 mis diwethaf wrth i deuluoedd wynebu cynnydd ym mhris bwyd, tanwydd a biliau. Mae'r Ganolfan Deulu'n edrych ymlaen at barhau i weithio o fewn y gymuned a datblygu sesiynau newydd, cyfleodd a chefnogaeth yn ychwanegol at y sesiynau cyfredol, ar gyfer teuluoedd Cwm Gwendraeth.



Canlyniadau





Canolfan Deulu Tŷ Hapus

Darparu cyfleoedd a phrofiadau gwerthfawr sy'n galluogi unigolion i wella eu bywydau nhw a bywydau eu teuluoedd a'u cymuned.

Uchafbwyntiau

- Mae hi wedi bod yn braf iawn gweld y Ganolfan Deulu'n ffynnu gyda theuluoedd hen a newydd. Llwyddwyd i ddatblygu cysylltiadau cryf ag asiantaethau eraill, a chreu rhwydweithiau cyfeillgarwch a chefnogi.
- Galluogodd cyfleoedd ariannu lles gymaint o rieni sy'n mynychu'r Ganolfan Deulu i fwynhau gwibdeithiau bws i'r Parc Dinosauriaid, Dinbych-y-pysgod, a Pharc Gwledig Penbre.
- Roedden ni wrth ein bodd yn gweithio gyda sefydliadau eraill drwy gydol y flwyddyn i ddarparu cyfleoedd, cefnogaeth a sawl diwrnod hwyl i deuluoedd.

Y Sesiynau a Gynhaliwyd

Drwy gydol y flwyddyn, llwyddwyd i gynnig sesiynau cyson megis Iaith a Chwarae ar gyfer babanod a phlant bach, chwarae a cherdded yn yr awyr agored, Aros a Chwarae, Paned a Chlonc, Tylino Babi a pheynnau coginio wythnosol.

Ymhellach, llwyddwyd i gynnig sawl gwibdaith a dyddiau hwyl yn cynnwys ymweliadau â'r Parc Dinosauriaid a Pharc Gwledig Penbre, dyddiau dathlu a gweithgareddau awyr agored a chwarae meddal.

Datblygwyd cysylltiadau ag asiantaethau eraill megis Guiding Star Journey,



Chwarae Anniben, Arts 4 Wellbeing, Rubba Bubba, Threshold-DAS, Ps..Parties, Crazy Clayton, Dechrau Da Plant Dewi, Dysgu Sir Gaerfyrddin ac Action 4 Children er mwyn cynnig sesiynau dathlu, addysgol a llawn hwyl i rieni.

“Maen nhw'n trefnu gweithgareddau ardderchog ar ein cyfer. Rydyn ni'n derbyn croeso mawr ac yn cael cymaint o sbort.”

”

Canolfan Deulu Ty Hapus

“

IRwy'n caru'r gefnogaeth a'r cyfeillgarwch mae fy merch a minnau'n ei dderbyn yma! Mae'n amhrisiadwy ac hebddo bydden ni'n dioddef!

”

Trosolwg o'r flwyddyn

Wedi blwyddyn ansicr a phryder cynyddol yn sgil y pandemig, roedd gallu dychwelyd i gynnal ein sesiynau arferol heb unrhyw gyfyngiadau'n brofiad anhygoel. Cyflwynwyd y sesiynau y tu fewn a thu allan, a chafwyd sesiynau hwyliog ac addysgol, megis Iaith a Chwarae ar gyfer babanod a phlant bach, Aros a Chwarae a Thyllino Babi.


Roedden ni'n hynod o ddiolchgar i dderbyn nawdd gan Plant Mewn Angen, Awards for All, Garfield Weston, Teuluoedd yn Gyntaf/Dechrau Da ac Ymddiriedolaeth Gymunedol Côt Post. Galluogodd cyllid pellach oddi wrth FF/FS a Chyngor Sir Gâr ni i gynnig haf gwyd o sesiynau hwyliog ychwanegol, gwibdeithiau a dyddiau hwyl er mwyn cefnogi lles emosiynol teuluoedd,



a pheynnau coginio wythnosol er mwyn lleihau baich yr argyfwng costau byw.

Cyflwynwyd cefnogaeth ychwanegol drwy gyfrwng amrywiaeth o gyrsiau a gweithdai rheianta, mewn partneriaeth â sefydliadau eraill. Ar sail arsylwadau ac adborth, roedd y plant wrth eu bodd â'r storïau, caneuon, chwarae anniben a synhwyrdd ac roedd y teuluoedd yn gwerthfawrogi'r rhwydwaith gymdeithasol a grëwyd gan y Ganolfan Deulu. Yn ystod y flwyddyn, lleihau wnaeth pryder llawer o deuluoedd a'u hymdeimlad o fod ynysig a gwella wnaeth iaith, gwytnwch a sgiliau cymdeithasol y plant.

Canlyniadau



DIOLCH

Diolch o galon i bawb sydd wedi ariannu a chefnogi Plant Dewi a'r canolfannau teulu yn ystod y flwyddyn. Diolchwn hefyd i'n ymddiriedolwyr, staff, gwirfoddolwyr, sefydliadau mewn partneriaeth a chefnogwyr ymroddedig sy'n ei gwneud hi'n bosibl i estyn llaw i gymaint o deuluoedd ledled Sir Gaerfyrddin Sir Benfro a Cheredigion.



DR DEWI DAVIES

WILLIAMS BROWN HILL CHARITY



EDRYCH YMLAEN

Wedi blwyddyn brysur o oresgyn y pandemig a'r holl ddathliadau, edrychwn ymlaen yn hyderus ac yn hapus wrth i ni barhau i wasanaethu cymunedai ar hyd a lled yr esgobaeth a chefnogi'r teuluoedd hynny sydd ein hangen ni fwyaf. Gwyddom fod llawer yn byw mewn sefyllfaoedd heriol a'n nod yw cynnig gwasanaethau sy'n addasu i'w hanghenion cyfnewidiol. Gyda thim llawn o weithwyr, edrychwn ymlaen i gyfarfod yn amlach a rhannu arfer dda, pwysu a mesur yr effaith rydyn ni'n ei gael ym mhob cwr o'r esgobaeth ac ystyried gweledigaeth ar gyfer dyfodol Plant Dewi.

Er mwyn dysgu mwy, ewch i'n gwefan ...

www.plantdewi.org.uk/cy/hafan/



www.plantdewi.org.uk/cy/ein-gwaith/prosiect-y-tadau/



www.plantdewi.org.uk/cy/ein-gwaith/prosiect-rhieni-ifanc/



www.plantdewi.org.uk/cy/ein-gwaith/grwpiau-teuluoedd-gyda-gilydd/



www.plantdewi.org.uk/cy/ein-gwaith/banc-bwndel-babi/



www.plantdewi.org.uk/cy/ein-gwaith/canolfannau-teulu/





PLANT DEWI

Lle mae Teuluoedd yn Bwysig
Where Families Matter

Plant Dewi, 21 Stryd y Brenin,
Caerfyrddin SA31 1BH.
Ffôn: 01267 221551

Plant Dewi, 21 King Street,
Carmarthen SA31 1BH.
Tel: 01267 221551

